



# **Cynllun Pwnc Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol**

**Chwefror 2019**

**CYMRÆG**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd <<http://bit.ly/2rtflxT>>. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg.

Mae’r Cynllun Pwnc Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol. Mae’r cynllun hwn hefyd yn cymryd darpariaeth a dyheadau’r Cynllun Pwnc Athroniaeth i ystyriaeth, sy’n cyfrannu at y ddarpariaeth Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth mewn sawl achos.

Bu cryn newid yn narpariaeth Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf gyda symud pwyslais y ddarpariaeth Gymraeg o Brifysgol Bangor i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Oddi mewn i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, bu’r pwnc yn cael ei ddysgu ar ddau gampws gwahanol, sef Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan. Mae’r pwnc bellach yn cael ei addysgu yn ei gyfanrwydd yn Llanbedr Pont Steffan. Mae Prifysgol Bangor bellach wedi ailafael yn y maes, a cheir darlithydd newydd cyfrwng Cymraeg yno ers 2017.

Hefyd, ceir darpariaeth yn y maes ym Mhrifysgol Caerdydd, er nad oes darpariaeth Gymraeg yno.

### Proses

Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion ynghylch lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

### Egwyddorion a Themâu

Bydd y cynllun newydd yn ceisio mynd i’r afael â diogelu darpariaeth Gymraeg i Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth fel pwnc academaidd ac ymateb i ofynion myfyrwyr y dyfodol. Bydd hefyd yn cynnig ffyrdd o ddatblygu darpariaeth y pwnc i’r myfyrwyr ac ar ffyrdd i gydweithio gyda phynciau eraill, megis Athroniaeth, er mwyn cynnig profiad eang a dwys o Astudiaethau Crefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Strwythur y Cynllun

Mae’r Cynllun Pwnc yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o’r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a’r cyfleoedd a’r heriau sy’n benodol i’r maes Astudiaethau Crefyddol.

Mae gan Astudiaethau Crefyddol ynghyd â Diwinyddiaeth (sydd bellach yn bwnc israddedig ac ôl-radd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) draddodiad hir a hynod bwysig wrth ddatblygu ysgolheictod drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, gwelwyd newid pwyslais yn y maes dros y blynyddoedd diweddar. Cyflwynwyd cwricwlwm newydd ar gyfer Safon Uwch lle y mae’r disgyblion yn canolbwyntio ar un o grefyddau’r byd ac yn dilyn modiwl ar ddau o’r unedau canlynol: Moeseg a Chrefydd, Athroniaeth Crefydd a’r Testament Newydd. Bydd angen i’r cynllun felly adlewyrchu’r newid hwn mewn profiadau dysgu a chynnig adnoddau er mwyn ymateb i’r newid yn y ddisgyblaeth.

Ceisiodd Cynllun Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol y Coleg Cymraeg yn 2016 gynnig llwybr at sefydlogi'r ddarpariaeth Gymraeg, yn unol â phenderfyniadau prifysgolion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddynodi Statws Arweiniol yn y pwnc i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Ers hynny, bu cryn newid mewn pwyslais a chefnogaeth i'r pwnc ym Mangor ynghyd â newid personél. Yn 2017/18, penodwyd aelod newydd o staff Cymraeg ei iaith i ddarlithio yn y maes.

Yn ystod 2016–17, gwelwyd datblygiad pwysig gyda Phrifysgol Caerdydd yn cyfrannu at ddau fodiwl Astudiaethau Crefydd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sef Arweiniad i Foeseq ac Athroniaeth Crefydd.

Bydd y Cynllun yn cynnig strategaeth at gryfhau'r pwnc, datblygu adnoddau, a chynnig amrywiaeth o fodiwlau Cymraeg mewn Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth.

| <b>Sefyllfa Gyfredol (2016/17)</b>  |   |  |  |
|-------------------------------------|---|--|--|
| <b>Sefydliad Addysg Uwch</b>        | <b>Darpariaeth</b>  | <b>Staff</b>   | <b>Myfyrwyr<sup>1</sup></b>  |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | <p>O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn yn y Gymraeg ar gyfer Astudiaethau Crefydd fel pwnc gradd BA.</p> <p>O leiaf 20 credyd o Athroniaeth ar gael yn y Gymraeg yn gydweithredol o fewn Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 1, a hyd at 40 credyd ar gael yn gydweithredol i fyfyrwyr blwyddyn 2-3.</p> | <p>2.25 aelod o staff cyfwerth llawn amser yn siarad Cymraeg.</p> <p>2.25 aelod o staff cyfwerth llawn amser yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>        | <p>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>11 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg ar draws BI1–BI3.</p> |
| <i>Prifysgol Bangor</i>             | <p><i>O leiaf 40 credyd mewn Astudiaethau Crefyddol.</i></p> <p><i>Nodir bod Prifysgol Caerdydd yn darparu modiwlau. Gweler y Cynllun Pwnc Athroniaeth am fanylion pellach.</i></p>   | <p><i>2 aelod o staff cyfwerth llawn amser yn siarad Cymraeg</i></p> <p><i>2 aelod o staff cyfwerth llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i></p> | <p><i>Llai na 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn</i></p> <p><i>14 myfyriwr yn gallu siarad Cymraeg ar draws BI1–BI3.</i></p> |

<sup>1</sup> Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf, 2016–17.

### Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

|                         |   |
|-------------------------|---|
| <b>Profiad Myfyrwyr</b> | <p>Ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae modiwlau BA mewn Astudiaethau Crefyddol yn symud o dref Caerfyrddin i Lanbedr Pont Steffan. Cynigir darpariaeth cwrs TAR ar gyfer myfyrwyr sydd am ddysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion ar eu campws yn Abertawe. Mae nifer o fyfyrwyr Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth yn y brifysgol wedi derbyn Ysgoloriaeth Mynediad y Coleg Cymraeg ac wedi elwa o'r cwrs Tystysgrif Sgiliau Iaith.</p> <p>Ym Mhrifysgol Bangor bu peth darpariaeth yn 2017-18 gyda phenodi darlithydd newydd yno. Gellir hefyd dilyn cwrs ymarfer dysgu TAR ym Mangor er mwyn cymhwyso addysgu Astudiaethau Crefyddol fel pwnc yn yr ysgol.</p> <p>Oherwydd niferoedd cymharol fychain sy'n astudio'r pwnc ar gyfer gradd, bydd angen i'r darlithwyr a'r prifysgolion gyd-weithio gydag adrannau eraill, megis Hanes, Athroniaeth a'r Gymraeg, er mwyn cynnig profiadau torfol deallusol, megis cynadleddau neu hyfforddiant astudio ac ehangu profiad y myfyrwyr.</p>   |
| <b>Darlithwyr</b>       | <p>Yn 2017–18 ceir dau staff rhugl eu Cymraeg a dau aelod arall nad ydynt rhugl ond sy'n awyddus i wella eu sgiliau iaith ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Bu'r Brifysgol ar gydweithio gydag Adran Athroniaeth Prifysgol Caerdydd, gan fanteisio ar eu darpariaeth.</p> <p>Yn 2017–18, penodwyd darlithydd newydd yn y maes ym Mangor. Darparwyd 6 modiwl yn ystod y flwyddyn honno a manteisiwyd ar fodiwl 'Credoau'r Cymry' gan ddarlithydd Athroniaeth Prifysgol Caerdydd. Hefyd, cafwyd cyfraniad oddi wrth ddau ddarlithydd mewn pynciau eraill a all ddarlithio ar Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol yn y Gymraeg.</p> <p>Mae capasiti felly yn y ddwy brifysgol i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a defnyddio profiadau arbenigwyr allanol eraill yn y maes.</p> <p>Hefyd, mae gan ddarlithydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant brofiad helaeth o feithrin myfyrwyr ôl-radd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau parhad yn y pwnc. Mae trafodaethau hefyd wedi cychwyn gyda Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ynghylch darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg, a bydd angen darlithwyr ar eu cyfer.</p> |

|                             |   |
|-----------------------------|---|
|                             | <p>Arweiniodd penodi ail ddarlithydd rhan amser mewn Athroniaeth gan Brifysgol Caerdydd at ehangu'r ddarpariaeth dros dro, yn benodol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Datblygwyd tri modiwl newydd fel ateb i'r alwad am fodiwlau Moeseg ac Athroniaeth Crefydd yn sgil newidiadau i faes llafur Safon Uwch 'Astudiaethau Crefyddol'.</p> <p>Fodd bynnag, gwelir bod angen am ddarlithydd/datrysiad parhaol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth gymwys (a fydd ar wahân i'r ddarpariaeth Athroniaeth) ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn modd gynaliadwy a phwrpasol. Bydd angen cynllunio er mwyn adnabod y modd orau o ddsbarthu a defnyddio adnoddau staffio ychwanegol i'r perwyl hwn.</p>   |
| <b>Cwricwlwm</b>            | <p>Bydd angen edrych ar ddatblygu'r berthynas ag Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'r Adran Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Bangor, gan elwa o gydweithio gyda'r Adran Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.</p> <p>Yn achos Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn arbennig, gwelir bod nifer o'r myfyrwyr yn mynd ymlaen i fod yn athrawon Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Gyda phwyslais y maes llafur Safon Uwch yn gwro fwyfwy tuag at ddysgu elfennau o Foeseg ac Athroniaeth, bydd cyfle i gydweithio er mwyn cynnig modiwlau a fydd yn rhan o gwricwlwm sydd o fudd i ddarpar athrawon.</p> <p>Yn 2018–19, lleolwyd Athroniaeth a Chrefydd o fewn yr un ysgol â Hanes ym Mhrifysgol Bangor, gan gynnig cyfle i ddatblygu modiwlau a allai fod o ddiddordeb i fyfyrwyr na fyddai wedi ystyried astudio Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol o'r blaen.</p> <p>Mae angen edrych ar ddatblygu hyfforddiant neu ddarpariaeth benodol mewn Diwinyddiaeth ar gyfer yr enwadau cyfrwng Cymraeg. Cychwynwyd trafodaethau yn ystod 2018-19 gyda Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru er mwyn ystyried y posibilrwydd hwn.</p> |
| <b>Canlyniadau Myfyrwyr</b> | <p>Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr eraill o fewn eu hadrannau/ysgolion, er bod cymhariaeth deg yn anodd o ystyried y niferoedd cyfyngedig sy'n astudio'r modiwlau.</p>  |
|                             |   |

|  |  |
|--|--|
| <p><b>Adnoddau</b></p>                                       | <p>Ceir rhywfaint o adnoddau yn Llyfrgell Adnoddau'r Coleg sy'n ymwneud ag Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth. &lt;<a href="https://llyfrgell.porth.ac.uk/Default.aspx?search=Crefydd&amp;page=1&amp;fp=0">https://llyfrgell.porth.ac.uk/Default.aspx?search=Crefydd&amp;page=1&amp;fp=0</a>&gt; Mae'r rhain yn cynnwys gweithiau'r athronwyr J. R. Jones a Dewi Z. Phillips a rhai erthyglau ar Grefydd a Hanes, e.e. ymateb crefyddol i ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau hanesyddol fel y Croesgadau neu ddiwymu'r mynachlogydd. Hefyd, ceir rhai erthyglau unigol ar natur crefydd a diwinyddiaeth. Mae'r rhain o ddefnydd i fodiwlau mewn Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol.</p> <p>Bydd angen ystyried datblygu adnoddau newydd er mwyn diweddarau a hwyluso dysgu, ac er mwyn astudio'r pwnc, gan gynnwys ar gyfer Safon Uwch. Bydd angen trafod â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru er mwyn sicrhau nad oes dyblygu gwaith.</p> <p>Gall yr adnoddau hyn fod yn, 'Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd a Moeseg' ac yna 'Astudiaethau Crefyddol' neu ymwneud â maes penodol diwinyddol a moesegol. Byddant o gymorth i ddisgyblion, myfyrwyr, athrawon a darlithwyr.</p> |
| <p><b>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</b></p> | <p>Cydnabyddir, erbyn hyn, y manteision o astudio pwnc fel hwn o ran meithrin sgiliau trosglwyddadwy, meddwl beirniadol a chreadigol sy'n cael ei ddysgu fel pwnc gorfodol hyd at 16 oed.</p> <p>Gall myfyrwyr Astudiaethau Crefyddol fynd ymlaen i ddysgu'r pwnc mewn ysgolion ac y mae'r pwnc yn cynnig sail gref i astudio graddau ôl-raddedig mewn meysydd eraill fel y Gyfraith, Gwleidyddiaeth, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, a Hanes.</p> <p>Ceir hefyd llwybrau gyrfa amgen ôl-radd i fyfyrwyr Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, gan gynnwys yn y maes Gwasanaeth Prawf, addysgu, datblygu polisi, ymchwil a'r weinidogaeth.</p>   |
| <p><b>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</b></p>          | <p>Yn dilyn y newid diweddar i gwricwlwm Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol, bydd angen i fodiwlau cyrsiau israddedig adlewyrchu ac ategu at y cwricwlwm newydd hwn yn ogystal â sicrhau bod y pynciau craidd ym maes Astudiaethau Crefyddol yn cael eu cynnig.</p> <p>Bydd aelodau'r Panel yn parhau i drefnu digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch er mwyn eu hannog i barhau â'u hastudiaethau ar lefel Addysg Uwch.</p>   |

|  |  |
|--|--|
|  | <p>Bydd hefyd angen datblygu llwybrau amgen ôl-radd i fyfyrwyr Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol gan gynnwys i'r maes Gwasanaethau Prawf, addysgu, datblygu polisi ac ymchwil.</p> |
|--|--|

|  |   |
|--|---|
|  | <p>Bydd angen i'r prifysgolion feithrin o leiaf un myfyriwr PhD ym maes Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol, yn enwedig mewn crefyddau megis Islam a Bwdhaeth yn ystod cyfnod y cynllun hwn er mwyn sicrhau bod dilyniant ac ystod ehangach o fodiwlau posibl ar gael yn y dyfodol.</p> |
|--|---|



| <b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>                                     |   |   |  |
|--|---|---|--|
| <b>Nod gweithredu</b>  | <b>Targedau blwyddyn<br/>(2017/18)</b>  | <b>Targedau 3 blynedd<br/>(2019/20)</b>   | <b>Targedau 5 mlynedd<br/>(2021/22)</b>  |
| <b>1. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn</b> | 12 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg  | 24 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg  | 36 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg   |
| <b>2. Darlithwyr</b>   | O leiaf 5.5 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg   | O leiaf 5.5 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg   | O leiaf 6 aelod o staff yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg  |
| <b>3. Darpariaeth</b>  | <i>O leiaf 80 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan un sefydliad</i><br><br><i>O leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan un sefydliad.</i> | <i>O leiaf 80 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan un sefydliad</i><br><br><i>O leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan un sefydliad.</i> | <i>O leiaf 80 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan un sefydliad</i><br><br><i>O leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan un sefydliad</i> |
| <b>4. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n cwblhau PhD</b>                            | 0   | 0   | O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg newydd dros gyfnod 5 mlynedd y Cynllun  |
| <b>5. Cynaliadwyedd</b>  | Datblygu perthynas ffurfiol â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru a chyrsgiau Lefel A  | Sefydlu sesiynau blynyddol ar gyfer myfyrwyr Astudiaethau Crefydd TGAU a Lefel A  | Cydweithio â Cholegau Addysg Bellach a CBAC er mwyn datblygu adnoddau ar gyfer darpar fyfyrwyr gradd   |

|                           |  |   |  |
|---------------------------|--|---|--|
| <p><b>6. Adnoddau</b></p> | <p>Trafod datblygu adnoddau â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru. Paratoi manyleb ar gyfer unrhyw waith cyhoeddi strategol</p> | <p>Cyhoeddi e-lyfr 'Athroniaeth Crefydd a Moeseg' ar gyfer myfyrwyr Lefel A / BI1</p> | <p>Cyhoeddi e-lyfr 'Cyflwyniad i Astudiaethau Crefyddol' ar gyfer myfyrwyr Lefel A / BI1</p> |
|---------------------------|--|---|--|

**Datblygu'r maes: targedau sefydliadol**

| <b>Sefydliad</b>                       | <b>Nod gweithredu</b>     | <b>Targedau blwyddyn<br/>(2017/18)</b>                             | <b>Targedau 3 mlynedd<br/>(2019/20)</b>                            | <b>Targedau 5 mlynedd<br/>(2021/22)</b>                            |
|--|---------------------------|--|--|--|
| Prifysgol Cymru Y Drindod<br>Dewi Sant | Myfyrwyr                  | O leiaf 2 fyfyrwr ym mhob<br>blwyddyn                              | O leiaf 4 fyfyrwr ym mhob<br>blwyddyn                              | O leiaf 6 fyfyrwr ym mhob<br>blwyddyn                              |
|  | Nifer y Darlithwyr        | 2.5 aelod o staff  | 2.5 aelod o staff  | 3 llawn amser  |
|  | Darpariaeth               | O leiaf 80 credyd y<br>flwyddyn drwy gyfrwng y<br>Gymraeg          | O leiaf 80 credyd y<br>flwyddyn drwy gyfrwng y<br>Gymraeg          | O leiaf 80 credyd y<br>flwyddyn drwy gyfrwng y<br>Gymraeg          |
| <i>Prifysgol Bangor</i>                | <i>Myfyrwyr</i>           | <i>O leiaf 2 fyfyrwr y<br/>flwyddyn</i>                            | <i>O leiaf 4 myfyrwr y<br/>flwyddyn</i>                            | <i>O leiaf 6 myfyrwr y<br/>flwyddyn</i>                            |
|  | <i>Nifer y Darlithwyr</i> | <i>3 rhan-amser</i>  | <i>3 rhan-amser</i>  | <i>1 llawn amser<br/>2 rhan-amser</i>                              |
|  | <i>Darpariaeth</i>        | <i>O leiaf 40 credyd y<br/>flwyddyn drwy gyfrwng y<br/>Gymraeg</i> | <i>O leiaf 40 credyd y<br/>flwyddyn drwy gyfrwng y<br/>Gymraeg</i> | <i>O leiaf 40 credyd y<br/>flwyddyn drwy gyfrwng y<br/>Gymraeg</i> |